# STEFFAN ab OWAIN yn cwblhau stori

# Y WASG YN 'STINIOG

GELWID L. Davies yn 'Capten Lewis Davies' gan amryw, ac os yw'r hyn a glywais yn gywir, rhoddwyd y teitl hwn o flaen ei enw, oherwydd ei ymgyrch i recriwtio llanciau yr ardal i'r fyddin yn ystod y Rhyfel Mawr. Clywais hefyd bod llawer rhiant yn ddig wrtho am wneud hynny, ac mae'n bosib bod ei bapur *Yr Aelwyd* wedi dioddef o'r herwydd.

Eto i gyd, cofir am Lewis Davies, nid yn unig am ei gyfraniad fel un o argraffwyr 'Stiniog, ond hefyd fel ysgrifennydd selog Seindorf Arian Oakeley am flynyddoedd, a'r ffaith iddo agor sinema yn yr Hen Goparét o'r enw 'The Empire Picture House' yn 1920.

* * * *

YN ÔL y farn gyffredin, yn 1899 y dechreuodd gwasg Thomas Williams ar ei gwaith o argraffu. Heb os, dyna pryd y daeth ei newyddiadur *Y Glorian* allan gyntaf. Cadarnheid hyn yn 'Nyddiadur Daniel Williams', dyddiadur a berthynai i chwarelwr o Ddolwyddelan:

> *Ionawr 6, 1899 — Papur o'r enw 'Y Glorian' yn cychwyn heddiw gan Mr Thomas Williams, Church Street, ac Elfyn yn olygydd iddo.*

Ie, Elfyn a olygodd y papur iddo am y saith mlynedd cyntaf, ac yn y rhifynnau cynharaf ceid colofn ddifyr ganddo o dan y ffugenw 'Tudur Llwyd'. Un arall a weithiai yno yn nyddiau boreol y wasg oedd Thomas Lloyd Jones, golygydd *Y Goleuad* yn ddiweddarach. Dywedir mai ef a gysododd y rhan fwyaf o'r rhifyn cyntaf.

Gyda llaw, bu'r tri yma, sef Thomas Williams, Elfyn a T. Lloyd Jones yn gweithio ar staff Swyddfa'r Rhedegydd o dan W. Lloyd Roberts ar un adeg o'u gyrfa. Ac yn hen siop Mr Gwilym Livingstone Evans, 15 Heol yr Eglwys y sefydlwyd yr argraffdy'n wreiddiol. Oddeutu'r flwyddyn 1902 y symudwyd y wasg i rif 1 Heol yr Eglwys, a lle mae Siop Y Glorian y dyddiau hyn.

Fel *Y Rhedegydd*, papur wythnosol yn costio dimai oedd *Y Glorian* pan ddaeth allan gyntaf. Yn wir, roedd ei gynnwys a'i naws yn bur debyg i'r *Rhedegydd* hefyd, ond roedd yn cystadlu'n bur dda â'r hen newyddiadur. Oherwydd rywdro yn 1906 helaethwyd *Y Glorian*, ac yna ar Ionawr 15, 1910 ail-helaethwyd ef — a chadwyd ei bris yn ddimai.

Yn ôl *Y Glorian* ei hun roedd ganddo yn 1910 'Y cylchrediad helaethaf yn Sir Feirionnydd a'r Cyffiniau' — ond faint o gopiau ohono a werthid yn wythnosol ni allaf ddweud.

* * * *

YM MIS Gorffennaf 1906 gwelwyd papur newydd arall yn ymddangos o wasg Thomas Williams. Ei enw oedd *Yr Arweinydd*, sef *'Newyddiadur Wythnosol at Wasanaeth Siroedd Arfon, Dinbych a Meirion'*, a'i bris oedd dimai, fel y lleill. Roedd y papur hwn hefyd yn debyg o ran cynnwys i weddill y papurau lleol, ac mae'n anodd dirnad heddiw sut y bu iddo wneud argraff ar ddarllenwyr y cyfnod. Sut bynnag, mae'n amlwg ei fod wedi gwneud.

Sylwais ar dudalen flaen rhifyn Mai 23, 1912 o'r *Arweinydd* ei fod wedi ei helaethu ym mis Chwefror 1907, ac fel ei frawd-bapur, *Y Glorian*, ail-helaethwyd yntau ym mis Ionawr 1910. O gymryd hyn i ystyriaeth yn ogystal â honiad y papur fod ganddo'r 'Cylchrediad Mwyaf yn Nyffryn Conwy', mae'n edrych yn debyg iawn ei fod wedi cael cefnogaeth dda dros gyfnod, ond dihoeni fu'r hanes ac erbyn tua chanol 1916 bu'n rhaid rhoi'r gorau i'r ddau bapur. Credaf mai cael eu huno â'r *Genedl Gymreig* oedd eu hanes wedyn.

Fel y gweddill o'r gweisg y ceir eu hanes yma, argraffwyd amrywiaeth o gyhoeddiadau yn Swyddfa'r Glorian hefyd. Dyma ddetholiad bychan o'r llyfrau a'r llyfrynnau mwyaf adnabyddus i ymddangos o'r wasg yn ystod ei hanner can mlynedd o argraffu: *Tlysau Morlwyd* (Arg. cyntaf 1899), Edward Wiliams (Morlwyd); *Methodistiaid Ysbyty Ifan* (1900), W. Roberts, Tabernacl; *Y Blaid Lafur Annibynol* (1908), Trefnwyd yn Gymraeg gan R. Silyn Roberts; *Wrth Borth yr Awen* (1911), Wyn Williams; *Diliau'r Plant — Llawlyfr ar Ganu gyda'r Tannau* (1913), Dewi Mai o Feirion; *Grand Bazaar — Yn Cynnwys Hanes Seindorf Blaenau Ffestiniog* (1933); *Cwestiynau Ddoe a Heddiw* (1946), E. Ffestin Williams.

Er na welwyd dim byd tebyg i newyddiadur wythnosol yn cael ei argraffu gan Swyddfa'r Glorian ar ôl tranc *Y Glorian* a'r *Arweinydd* yn 1916, bu'r cwmni yn brysur yn argraffu pethau fel mân-lyfrau, adroddiadau eglwysig, cardiau, tocynnau, a.y.b., tan tua 1950. A chyn i mi adael hanes Thomas Williams a Swyddfa'r Glorian dylwn grybwyll tri pheth arall. Yn gyntaf, ym mlynyddoedd cynnar y ganrif hon cyhoeddwyd cyfres o gardiau post darlunedig efo lluniau du a gwyn o Flaenau Ffestiniog a'r cylch arnynt, ac yn ysgrifenedig ar eu gwaelod ceir: *'The Glorian Series, Thomas Williams & Co., Blaneau (sic) Festiniog (sic)'*.

Nid oes gennyf amcan faint o wahanol fathau o luniau a oedd yn y gyfres, ond gallaf ddweud eu bod o ansawdd da.

Yr ail beth yr hoffwn ei nodi yw, bu gan Thomas Williams, fel *Y Rhedegydd*, swyddfa yn Llanrwst ar un cyfnod o'i hanes. Ni allaf ddweud ymhle 'roedd hi yno. Tybed a yw Myrddin ap Dafydd, Gwasg Carreg Gwalch, yn gwybod?

Yn olaf, hoffwn grybwyll mai un o'r rhai olaf i weithio ar staff Swyddfa'r Glorian oedd y diweddar gyfaill a'r bardd Jonah Wyn Jones, Blaenau Ffestiniog — neu 'J.W.'

* * * *

YN YSTOD fy mlynyddoedd o chwilota i hanes 'Stiniog a'r cylch 'rwyf wedi dod ar draws sawl cyfeiriad at weisg eraill a fu yma yn ystod y ganrif ddiwethaf. Yn ôl pob golwg, rhai byrhoedlog oeddynt.

Er enghraifft, yn 1875 rhedid gwasg gan un S. Roberts yn Market Place, Bl. Ffestiniog, sef gerllaw Neuadd y Farchnad ac Eglwys Dewi Sant.

Yn yr un flwyddyn cyhoeddwyd *Tysteb Parch. L. Edwards D.D., Bala* gan y wasg. Fodd bynnag, ar wahân i'r cofnod yma amdani, nid wyf wedi gweld dim byd arall.

Eto, mae awgrym mewn hen Gyfarwyddiadur am y flwyddyn 1882 bod gwasg yn dal yn yr un lle — saith mlynedd yn ddiweddarach — oherwydd dyma geir ynddo: *'R. J. Jones & Co., Printers, Market Place, Bl. Ffestiniog'*.

Cofier, mae'n bosib' bod gwasg wedi ei hagor ym Market Place cyn 1875, oherwydd mae gennyf gof o'm diweddar gyfaill Bob Roberts, Tanygrisiau, yn dweud wrthyf iddo weld hen daflen gyda phenillion argraffedig arni a ganfuwyd mewn wal rhyw dŷ yn Rhydysarn, a'i fod bron yn sicr iddynt gael eu hargraffu gan wasg yn Market Place, naill ai yn niwedd yr 1860au, neu ddechrau 1870au. Tybed a oes rhywun a all gadarnhau hyn?

* * * *

CRYBWYLLAIS o'r blaen fod Humphrey Evans (Y Bala) wedi ailddechrau argraffu yn 'Stiniog ar ôl ei ymadawiad o'r dref yn 1875. Erbyn 1889, onid ychydig cynt, 'roedd ganddo swyddfa argraffu yng ngwaelod Lord Street (Four Crosses), Blaenau Ffestiniog.

Pam y penderfynodd ailagor swyddfa yma, ni allaf fod yn sicr. Sut bynnag, ar Ddydd Gŵyl Ddewi 1889 gwelwyd newyddiadur hollol newydd o'r enw *Y Gwir* yn ymddangos o'i wasg. O dan deitl y papur ceid dau englyn i hysbysu'r darllenwyr o'i gynnwys. Dyma un ohonynt:

> *Newyddion ddigon a ddygir—iddo,*
> *Cyhoeddiad ledaenir*
> *Hyd Feirion — hwn glodforir,'*
> *A'r gau, i'w gell rhag 'Y Gwir'.*

Ar dudalen flaen y rhifyn cyntaf ceid y geiriau canlynol gan y golygydd: *'Oni bae ein bod yn credu fod eisiau Y GWIR yn yr ardal ni fuasai yn gwneyd ei ymddangosiad heddyw'.* Ond, nid yw'n edrych yn debyg iawn fod darllenwyr papurau newydd yn 'Stiniog yn barod am 'Y Gwir' yn wythdegau'r ganrif ddiwethaf! Ni pharhaodd y papur ond am ychydig iawn. Costiai ddimai. Ei olygydd oedd y Parch. J. R. Parry, Bethania, Bl. Ffestiniog.

Ym mis Gorffennaf 1891 daeth H. Evans â newyddiadur arall o'i wasg yn Four Crosses — ei enw oedd *Y Chwarelwr*. Amcan y papur hwn oedd gwasanaethu chwarelwyr Gogledd Cymru — yn wir, fel yr un a ddaeth allan gan Richard Owen, Llanberis, yn 1876.

Arwyddair y *Chwarelwr* hwn oedd: *'Gwlad Rydd a Mynydd i Mi'*, a'i bris oedd dimai. Am ryw reswm neu'i gilydd, ni pharhaodd hwn ychwaith ond am ychydig rifynnau. Ar wahân i'r papurau hyn, gwerthid llyfrau yn swyddfa'r Chwarelwr hefyd, ond hyd y gwn i, ni chawsant eu hargraffu yno. Credaf i'r swyddfa gan oddeutu 1894.

* * * *

YCHYDIG IAWN o bobl sy'n sylweddoli fod gwasg wedi bod ar waith yn 'Stiniog mor ddiweddar â mis Gorffennaf 1986. Yn Heol Newydd (New Road) y bu'r wasg yma a gweithid hi hyd at ychydig flynyddoedd yn ôl gan y diweddar Mr Caradog Edwards, 28 Y Sgwâr, un o gynweithwyr swyddfa'r Rhedegydd. Bu ef yn ei rhedeg hi am ryw ddeng mlynedd ar hugain i gyd, yn argraffu adroddiadau, rhaglenni, cardiau a thocynnau gan fwyaf. 'Roedd hon yn wasg fach hwylus a chyfleus iawn yn ei dydd, a gresyn o'r mwyaf oedd ei gweld hi'n cau.

Bellach, nid oes un wasg ar ôl yn nhref Blaenau Ffestiniog, ac fel mae mwy o siopau'n cau o ddydd i ddydd, nid yw'n debygol y gwelwn yr un wasg yn agor yma byth eto. Ond wedi dweud hynna, pwy a ŵyr beth sydd gan 'y drefn' ar ein cyfer yn y dyfodol.

DIOLCHIADAU: Hoffwn ddiolch i'r canlynol am fy nghynorthwyo gyda fy ymchwil i'r hanes uchod: Dafydd Guto, Bethel; Dafydd Jones, Arlyn, Trawsfynydd; Mrs Meiriona Williams, Tanygrisiau; J. Gerald Griffiths, Blaenau Ffestiniog; Dr Bruce Griffiths, Bangor; Staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru; Staff Llyfrgell Gyhoeddus Blaenau Ffestiniog; Staff Llyfrgell Coleg Prifysgol Cymru, Bangor; Griffith R. Jones, Manod.